

CYNGOR TREF LLANGFNI

COFNODION Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, a gynhaliwyd **Nos Lun 14eg o ORFFENNAF 2025** am 6.30y.h. yn Ystafell Pwyllgorau, Y Lllys, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.

YN BRESENNOL :

Cyng. J. Egryn Lewis - Cadeirydd

Cyng. Arwel Môn Hughes
Cyng. J. Huw Owen
Cyng. Margaret Thomas
Cyng. John Lee

Cyng. Non W. Parry
Cyng. Henry Jones
Cyng. Terry Jones

HEFYD YN BRESENNOL :

Cynghorydd Sir : Geraint Bebb

Dylan W. Rees

Clerc : Mr. H. Rhys Parry

Swyddog Gweinyddol : L. Powell

Heddlu : PCSO 4515 G. Jones

PCSO 2993 C. McGonigle

Cyngor Sir Ynys Môn :

Mr. W. Ll. Stockwell, Uwch
Swyddog Prosiect

Cyfarfod yn cael ei Recordio

Cadeirydd, Cyng. J. Egryn Lewis yn croesawu'r Aelodau i'r Cyfarfod Llawn

- 25/072 Ymddiheuriadau :** Cyng. Gwenan Ll. Evans Cyng. Alwyn Parry
Cyngor Sir : Cyng. Nicola Roberts Cyng. Non Dafydd
Ymddiswyddo : Clerc yn rhoi gwybod i'r Aelodau fod Cyng. Eleri Ll. Burns wedi ymddiswyddo fel Cynghorydd Tref ar Ward Cefni a bod Sedd Wag arall ar y Cyngor Tref yn dŵad a'r cyfanswm o Seddi Gwag i bump.

- 25/073 Datganiad o Ddiddordeb : Dim**

- 25/074 Heddlu Gogledd Cymru :**

PCSO's yn cyflwyno eu hunain i'r Aelodau a'r Cadeirydd yn eu croesawu i'r Cyfarfod. PCSO's yn rhoi gwybod, o hyn ymlaen, bydd pump Heddweision yn gorchuddio ardal Llangefni. Bu'r Swyddogion baratoi diweddariad o ystadegau a'u rhannu gyda'r Aelodau. Heddlu yn adrodd fod gwaith Cais Grant ar y gweill gyda Chlwb Pêl Droed Llangefni ynghyd a Phrosiect i atal plant rhag mynychu Cyn safle'r Hen Ysgol ar Allt Station (Station Hill). Yn dilyn trafodaeth, bu cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau a Cyng. John Lee yn holi am fwy o wybodaeth yn ymwneud a'r Clwb Pêl Droed. Cyng. Geraint Bebb yn cadarnhau nid yw hyn yn cyfeirio at Dîm Pêl Droed leuenctid. Cyng. Dylan Rees yn cyfeirio at y sefyllfa fod dim digon o safleoedd ar gyfer y nifer o blant a'r Timau Pêl Droed i gyd yn y dref. Cyng. Rees yn gofyn trwy'r gadair i'r Clerc beth sydd yn digwydd gyda'r Cae Criced. Clerc yn esbonio, ar hyn o bryd, fod Grŵp "Gwynedd Bowmen" yn defnyddio'r safle yn gyson a bydd diweddariad yn ystod Mis Hydref.

25/075 Cyflwyniad : Cyngor Sir Ynys Môn - Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd : Prosiect Datblygu Llwybr Troed Newydd (Rhwyng Oriel Môn a Nant y Pandy) : Cadeirydd yn croesawu Mr. W. Stockwell i'r Cyfarfod. Mr. Stockwell yn cyflwyno ei hun ac yn esbonio ei fod yn gweithio gyda'r Tîm uchod a hefyd ar y cyd gyda Phrosiect SPF. Clerc yn cadarnhau mai'r Cyngor Tref ydyw perchennog y tir yma a rhannwyd cynllun o leoliad y llwybr troed arfaethedig gyda'r Aelodau. Fel sgwrs gychwynnol, crynhodd y Swyddog ar y Prosiect, wrth son hefyd am y gyllideb , a'r bwriad arfaethedig ydyw gwella'r linc rhwyng y dref, Y Dingle ac Oriel Môn. Bu cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau i'r Swyddog gyda chyfeiriad penodol at osod ffens bwrpasol i arbed anifeiliaid a.y.b., mewn egwyddor roedd pawb yn gefnogol i'r Prosiect. Swyddog yn esbonio fod cyllideb flynyddol ar gael hyd at Fawrth 2026 a'r Clerc yn datgan, oherwydd mai Caniatâd Cynllunio Amlinellol sydd mewn lle, nid ydyw'r Cyngor Tref mewn sefyllfa i symud ymlaen gyda'r uchod ar hyn o bryd. Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** derbyn yr argymhellion mewn egwyddor a chysylltu ymhellach gyda'r Cyngor Sir pan fydd cynlluniau pendant mewn lle yn ymwneud a safle'r Fynwent newydd.

Cadeirydd yn diolch i Mr. Stockwell am ei Gyflwyniad

25/076 I Dderbyn Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Llawn 09.06.2025 : Cyng. Arwel Môn Hughes yn Cynnig a Cyng. J. Huw Owen yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.

25/077 I Ystyried Materion yn Codi o Gofnodion 09.06.2025 : Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau i gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod os oes materion yn codi o'r Cofnodion uchod. Clerc Cyng. J. Egryn Lewis wedi ymweld â'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod ac wedi dwyn sylw at y canlynol :

- 1 Eitem 25/054.1 : Môn Actif - Prosiect Lon Las :** Clerc wedi esbonio fod y dyletswyddau o fewn y Prosiect ddim yn cynnwys defnydd o'r gwasanaethau Trydan a Dŵr, mai fel storfa yn unig mae'r Pafiliwn yn cael ei ddefnyddio o fewn y cynllun. "Standing Charge" yn unig ydyw'r taliadau presennol.
- 2 Gweithgareddau Dros Gyfnod yr Haf :** Fodd bynnag, mae gwariant oddeutu £8,000 yn cael ei wario o fewn Prosiect Môn Actif ar gyfer marcio allan y Cwrt Tennis/Pickleball a.y.b. gyda rhai dyddiad wedi'u clustnodi ar gyfer Gwersyllfa'r Haf ar safle Lôn Las. Yn dilyn trafodaeth, Cyng. Non Parry yn Cynnig a Cyng. Arwel Môn Hughes yn Eillio, caiff cyfranogwyr y Gwersyll Haf ddefnyddio'r cyfleusterau toiledau ac ati drwy gyfnod yr Haf am ddim, ar yr amod bod y Pafiliwn yn cael ei gadw'n daclus ac yn lan. Cadarnhaodd y Clerc fod Yswiriant mewn lle ar gyfer yr Adeilad yma. **PENDERFYNWYD** derbyn yr uchod a chytuno defnydd o'r cyfleusterau am ddim.

24/078 Cynllunio :

- 1 I Dderbyn Cofnodion Pwyllgor Cynllunio 09.06.2025 & 23.06.2025 :** Cyng. Terry Jones yn Cynnig a Cyng. J. Huw Owen yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fe rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion fel rhai cywir.
Cyng. Terry Jones yn holi os oedd unrhyw wybodaeth ychwanegol wedi dod i law ynglŷn â gwaith i'r fynedfa, Capel Smyrna. Clerc y cadarnhau nad oedd unrhyw ddiweddariad wedi ei dderbyn trwy'r Swyddfa. Dim trafodaeth bellach.

24/079 I Dderbyn Cywirdeb Cofnodion y Cyfarfod Arbennig y Cyngor 23.06.2025 :

- 1 Eitem 25/068 :** Cadeirydd yn datgan nad oedd pennawd yr Eitem yn ddigon clir - Clerc yn cytuno, dylid darllen "Mr. Alun Foulkes, Archwilydd Mewnol yn Cyflwyno'r Adroddiad Archwiliad Mewnol am y flwyddyn 2024-2025 a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2025".
- 2 Cyflogaeth :** Cafwyd trafodaeth lle codwyd y drefn o dalu'r cyflogau misol. Eglurodd y Clerc fod pob Aelod yn cael gwybod tua mis Medi bob blwyddyn beth ydyw cyfanswm y gyflogaeth

PARHAD 24/079

ar gyfer y flwyddyn i ddod trwy gyflwyno'r ddogfen y Precept. Wrth dderbyn ffigwr y Precept mae hyn yn golygu fod ffigwr y gyflogaeth am y flwyddyn wedi'i dderbyn hefyd a phawb yn ymwybodol ohono. Dyletswyddau'r Clerc ydyw gweithredu'r taliadau a gytunwyd arnynt yn fisol ynghyd a'r taliadau statudol, sef HMRC a Phensiynau, o fewn y Rheolau Ariannol. Mae'r taliadau yn ymddangos ar y Fantolen Ariannol yn fisol a'r system gywir yn cael ei ddilyn. Cyng. Margaret Thomas yn adrodd ei bod yn gwerthfawrogi fod hyn yn fater cyfrinachol ond bod cyfrifoldeb ar y Cadeirydd/Aelodau i sicrhau trefn i lofnodi cymeradwyaeth y cyflogau yn fisol. Clerc yn ymateb ei fod yn dilyn y drefn gywir o fewn y Rheolau Ariannol a bod yr hawl ganddo i wneud y taliadau o fewn ffigwr y Precept, ac nid oes unrhyw ddyletswydd gyfreithiol i ddatgelu cyflogau uniongyrchol y staff. Cyng. Margaret Thomas, fel Cadeirydd y Pwyllgor Staffio, yn datgan fod hyn yn fater i'r Pwyllgor Staffio drafod.

- 3 Adroddiad Un Llais Cymru :** Cyng. Henry Jones yn holi pryd y bydd ganlyniadau'r Adroddiad ar gael a beth yw'r rheswm dros yr oedi yn ei chyflwyno i'r Aelodau. Cyng. Jones yn dwyn sylw fod hyn yn siŵr o achosi pryderon mawr i'r Staff a dylid fod gwybodaeth ar gael erbyn hyn. Holodd y Clerc am sefyllfa'r staff yn hyn i gyd, ond ni allai'r Cadeirydd roi ateb, ond dweud ei fod yn fater cyfrinachol a bydd gwybodaeth i law efallai yn Mis Medi/Hydref 2025. Cadeirydd a Cyng. Thomas yn ymateb fod yr Archwiliad yn gyfrinachol a bod awgrymiadau i apwyntio Cwmni arall a'i fod allan o ddwylo'r Panel. Ni fydd unrhyw drafodaeth bellach. Yn dilyn cywirdeb i'r Cofnodion, fel y nodwyd, Cyng. Margaret Thomas yn Cynnig a Cyng. Non Parry yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion yn unol â'r uchod.

7.25y.h. Cyng. Dylan W. Rees yn gadael y Cyfarfod.

25/080 I Dderbyn Unrhyw Gyfathrebon Gan y Maer :

Cadeirydd yn adrodd ar y canlynol :

- 1 Derbyniad Blynyddol Llu Awyr Brenhinol Y Fali 11.07.2025 :** Noson braf eithriadol a pherfformiad y Band yn wych.

25/081 Materion yn Codi Gan Aelodau :

- 1 Cyng. Margaret Thomas :**

Fynwent Lon Newydd : Cyng. Thomas yn ymwybodol fod arwyddion "Cadwch Gŵn ar Dennyn" wedi'u gosod ar y giatiau erbyn hyn. Cyng. Thomas yn dwyn sylw dylid fod y giât yn cael ei chau ond am fynediad i ddefnyddwyr cadair olwyn. Ymatebodd y Clerc y byddai'n fater iechyd a diogelwch i agor a chau'r giât oherwydd bod yr hinges wedi gollwng yn y cilbost, sydd yn gwneud y giât yn beryglus oherwydd hyn mae'r giât yn aros ar agor. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd trafod y mater yma ymhellach yn Bwyllgor nesaf y Fynwent a Meysydd Chwarae 15.09.2025. **PENDERFYNWYD** derbyn symud ymlaen i drefnu'r Cyfarfod y Fynwent a Meysydd Chwarae 15.09.2025 a fydd yn cael ei gynnal ar safle'r Fynwent, Lon Newydd.

Blodau'r Dref : Cyng. Thomas yn awgrymu, oherwydd materion iechyd a diogelwch, dylid fod gan y Tirmon gwell gyfleusterau ar gyfer dyfrio'r blodau o gwmpas y dref. Yn dilyn trafodaeth, Clerc yn esbonio fod arian grant wedi'i glustnodi ar gyfer archebu "Watering Bowser", gyda'r gost oddeutu £1,500.00. Cyng. J. Huw Owen yn Cynnig a Cyng. Non Parry yn Eilio i archebu'r peiriant uchod. **PENDERFYNWYD** rhoi awdurdod i'r Clerc weithredu ar hyn a symud ymlaen i archebu'r "Bowser".

- 2 Cyng. Non W. Parry :**

Stryd y Cae : Cyng. Parry yn dwyn sylw at fater iechyd a diogelwch yn yr ardal yma oherwydd bod y palmentydd mewn cyflwr gwael iawn, yn anwastad ac yn creu perygl i gerddwyr a phobl sydd yn defnyddio sgwteri symudol. Hefyd pan fydd yn bwrw glaw yn drwm, mae'r palmentydd yn dal dŵr, sydd hefyd yn achosi perygl. Cyng. Non Dafydd yn ymwybodol o hyn ac wedi cyfathrebu gyda pherchennog busnes cyfagos yn y gorffennol. Cytunwyd i anfon e-bost at adran Prifffyrdd y Cyngor Sir gyda'r pryderon uchod. Cyng. Geraint Bebb yn cadarnhau mai'r

PARHAD 25/081

canllawiau ydyw i'r Clerc ysgrifennu at y Cyngor Sir a chopio'r Cyngorydd Sir i mewn i'r e-bost.

Ffordd Glandwr : Cyng. John Lee yn dwyn sylw at y marciau ffyrdd a dylid ystyried gwella'r arwyddion cyfeirio ar gyffordd Ffordd Glandwr. Yn dilyn trafodaeth Cyng. Non Parry yn Cynnig a Cyng. John Lee yn Eilio dylid tynnu hyn i sylw Adran Priffyrdd y Cyngor Sir. Cadeirydd yn gofyn i'r Clerc weithredu ar y ddau bwynt o'r Eitem yma ac anfon e-bost i'r Cyngor Sir gyda chopi i'r partiön priodol. **PENDERFYNWYD** derbyn yr uchod,

25/082 Adroddiad y Clerc :**Diweddariad gan y Clerc ar y canlynol:**

- 1 **Fynwent Lon Newydd** : Oherwydd mai dim ond dau fedd sydd ar ôl yn y Fynwent, dywedodd y Clerc ei bod bellach yn fater brys i symud ymlaen i greu 19 o Feddi ychwanegol. Mae prisiau a chynlluniau wedi'u paratoi gan un Cwmni ar gyfer y gwaith hwn ac wedi'u rannu gyda'r Aelodau mewn Cyfarfod blaenorol. Cyng. Margaret Thomas yn dwyn sylw fod bedd a pharatowyd yn waelod y Fynwent yn y gorffennol wedi llenwi gyda dŵr yn ystod misoedd y gaeaf a ni fedrwyd ei defnyddio ac felly yn awgrymu dylid gwneud profion dyfnder a thyllau turio yn yr ardal benodol a chael cecio lefelau'r dŵr. Buasai hyn yn waith i Gwmni CDS gario allan, derbyn costau'r gwaith archwilio'r ardal estyniad arfaethedig. Cadeirydd yn adrodd, o dan yr amgylchiadau, dylid symud ymlaen gyda'r awgrymiadau a derbyn yr un pris a dderbyniwyd gydag amodau i edrych ar baratoi tyllau turio. Hefyd bydd angen arddangos rhybudd ynghyd a chynllun, fod y gwaith angenrheidiol yn mynd ymlaen yn y Fynwent. Aelodau yn cytuno yn unfrydol gydag argymell y Cadeirydd. **PENDERFYNWYD** rhoi awdurdod i'r Clerc weithredu ar yr uchod a threfnu fod y gwaith yn cychwyn mor fuan ag y bo modd.
- 2 **Tir Penlan** : Cytundeb wedi'i dderbyn i osod y tir am £200 yr erw am y misoedd 01.07.2025 - 31.03.2026.
- 3 **Awdit Cymru** : Cyflwynwyd Ffurflen Flynyddol ar Gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2025, ynghyd a'r dogfennau priodol, i Swyddfa Awdit Cymru yng Nghaerdydd 01.07.2025. Clerc yn adrodd fod e-bost wedi'i dderbyn gan Awdit Cymru yn cydnabod derbyn y dogfennau. Dim Trafodaeth ar yr Eitem yma.
- 4 **Camerâu CCTV** : Camerâu newydd wedi'u gosod yn dŵad a'r cyfanswm o Gamerâu o gwmpas y dref i 68. Mae'r Meddalwedd wedi'i uwchraddio i gefnogi'r system ac mae popeth yn gweithio. Cyng. Margaret Thomas yn holi os oedd amcan bris am ail-osod y Camera yn ôl ar dalcen siop yr "Turkish Barber". Clerc am edrych i mewn i hyn.
- 5 **Gwyliau Blynyddol Mis Awst 2025** : Dim ond staff hanfodol fydd yn gweithio yn y Swyddfa yn ystod Mis Awst, oherwydd gwyliau blynyddol. Clerc yn cadarnhau, yn unol â Rhestr Dyddiadau Cyfarfodydd 2025-2026, ni fydd Cyfarfodydd yn cael eu trefnu trwy'r Swyddfa. Cadeirydd yn adrodd efallai bydd cyfarfod yn cael ei drefnu nad fydd yn cynnwys y staff yn ystod mis Awst, yn dilyn derbyn Adroddiad Ymchwiliol Un Llais Cymru, sydd erbyn hyn wedi'i dderbyn. Hysbysodd y Clerc yr Aelodau fod Anfoneb gan Un Llais Cymru am £2,300 wedi dod i law i'w dalu. Nododd yr Aelodau fod y Cyngor wedi cytuno i wneud y taliad hwn. Cyng. Margaret Thomas yn dwyn sylw bydd yr Adroddiad yn cael ei thrafod gyda'r Aelodau. Cyng. Jones yn anfon oherwydd bod dau Aelod wedi ymddiswyddo, sy'n gadael dim ond dau Gynghorydd ar y Panel Penodedig, ac mae hyn yn annheg i gynrychioli'r Cyngor Tref. Dywedodd y Clerc fod pum Sedd Wag bellach ar y Cyngor Tref a bydd recriwtio'n digwydd yn mis Medi 2025.

25/083 Adroddiad Pwyllgorau Allanol :

- 1 Fforwm Cyswilt Cyngorau Thref a Chymuned Ynys Môn : Cofnodion 19.05.2025;**
- 2 Cyfarfod Grŵp Adfywio Llangefni : Cofnodion 03.06.2025;**
- 3 Cyfarfod Trefi Môn/Pump Tref : Cofnodion 23.06.2025;**
- 4 Un Llais Cymru - Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Môn : Cofnodion 24.04.2025;**
- 5 Cyfarfod Cyngor Coleg Llangefni : 24.06.2025.**

Cyflwynwyd yr uchod er gwybodaeth i'r Aelodau - Cyng. John Lee yn Cynnig a Cyng. Non Parry yn Eilio i dderbyn y wybodaeth.

25/084 Cyllid :**I Dderbyn Mantolen Ariannol Mis Mehefin 2025 :****Sylwadau'r Aelodau, fel a ganlyn :**

- 1** Clerc yn esbonio'r taliadau Nwy (P109) ar y Fantolen.
Eglurhad i Cyng. John Lee am daliadau Trydan y Parc Sglefrio (P133) "Standing Charge " . Clerc am edrych i mewn i'r taliadau a holi os yn bosib eu gostwng. Yn dilyn trafodaeth, Cadeirydd yn gofyn i Gynnig ac Eilio'r Fantolen. Nid oedd unrhyw un o'r Aelodau yn fodlon cynnig nac eilio'r Fantolen, Gofynnodd y Clerc pam na dderbyniwyd y Fantolen Ariannol a beth oedd y broblem. Ni atebodd neb, ac o ganlyniad, nid oedd cynigydd nac eilydd ar gyfer Mantolen Ariannol Mis Mehefin. Dim trafodaeth bellach.

**25/085 Adroddiadau Misol Cyngor Sir Ynys Môn :
Cynghorydd Sir yn adrodd ar y canlynol :**

- 1**
 - Cynllun Drafft Datblygu Lleol : Parhau i chwilio am dir;
 - Damwain ger y cyn Pont Rheilffordd ar Lon Glanhwfa : Dylid fod yn ymwybodol o unrhyw drafferthion yn yr ardal yma;
 - Gemau'r Ynysoedd : Timau Ynys Môn wedi bod yn llwyddiannus iawn. Ffion Roberts
 - Carla Woodcock

Cadeirydd yn diolch i Cyng. Geraint Bebb am ei fewnbwn

25/086 Gohebiaeth a Materion Newydd :

- 1 Un Llais Cymru - Cyfansoddiad a Fframwaith Llywodraethant 25.06.2025 : Atodol, er gwybodaeth.**

25/087 Gohebiaeth a Materion Newydd :**Materion wedi'u hanfon trwy E-bost yn ystod Mis Mehefin 2025 :**

- | | | | |
|----------|------------------------|----------|---------------|
| 1 | Un Llais Cymru | : | Derbyn |
| 2 | Materion Eraill | : | Derbyn |

25/088 I Ystyried Unrhyw fater Brys Gan y Cadeirydd : Dim

Cyng. Margaret Thomas yn gofyn i'r Aelodau aros ar ôl ar ddiwedd y Cyfarfod i drafod yn gyfrinachol Ymchwiliad Un Llais Cymru yn dilyn o Adroddiad Awdit Cymru.

25/089 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf : 09.09.2025

Gofynnodd y Cadeirydd a Chadeirydd Pwyllgor Staffio a Safonau i'r Clerc a'r Swyddog Gweinyddol adael y cyfarfod tra roedd Ymchwiliad Un Llais Cymru i Adroddiad Awdit Cymru yn cael ei drafod. Cafodd y Clerc a'r Swyddog Gweinyddol ddychwelyd yn ôl o dan gyfarwyddiadau Cadeirydd Pwyllgor Staffio a Safonau i gynnal y Pwyllgor Cynllunio.

